

Sut mae Rheoli Gwastraff Busnes

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn rhoi arweiniad i'ch busnes ac yn amlinellu eich cyfrifoldebau o ran y gwahanol ddeunyddiau gwastraff mae angen i chi eu gwaredu.

Mae pob busnes yn cynhyrchu gwastraff, o bapur swyddfa, cetrus inc, teiars, cydrannau mecanyddol a thrydanol na ellir eu gwasanaethu, i gynnyrch bwyd heb ei ddefnyddio, pren a metel sgrap. Mae'n rhaid gwaredu'r holl wastraff fel nad yw'n niweidio'r amgylchedd, ac mae cyfreithiau amgylcheddol yn pennu sut mae ei glirio o safle eich busnes a ble gellir mynd ag ef.

O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Adran 45) nid yw trethi busnes a gesglir gan y Cyngor Sir yn cynnwys casglu na gwaredu gwastraff masnachol/busnes.

Dyletswydd Gofal

Fel busnes, mae'n ofynnol i chi gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol:

- Storio eich gwastraff yn ddiogel ac yn saff, i sicrhau nad yw'n dianc ac yn llygru neu'n niweidio'r amgylchedd.
- Sicrhau bod y person(au) sy'n gwaredu eich gwastraff wedi'i awdurdodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd gynt) i'w drosglwyddo, ei ailgylchu neu ei waredu'n ddiogel. Dylech hefyd sicrhau disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff a nodyn trosglwyddo (wedi'i lenwi a'i lofnodi gan gynrychiolydd o'ch busnes a'r person sy'n casglu eich gwastraff).
- Os ydych chi'n casglu gwastraff busnes oddi wrth rywun arall, dylech sicrhau eich bod **chi** wedi cofrestru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru fel cludydd gwastraff, a bod gennych **chi** ddisgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff a nodyn trosglwyddo (wedi'i lenwi a'i lofnodi gan gynrychiolydd o'r busnes y mae ei wastraff yn cael ei glirio a'r person sy'n trosglwyddo'r llwyth gwastraff).
- Bydd angen cadw'r nodyn trosglwyddo gwastraff am gyfnod o ddwy flynedd, sef y cyfnod archwilio sy'n ofynnol gan y Cyngor Sir neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn arwain at ddirwy o £300.

Mae busnesau'n gyfrifol am y gwastraff maen nhw'n ei gynhyrchu

Yn eu strategaeth "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno canllawiau er mwyn i'r sector busnes fod yn fwy cynaliadwy.

Mae bellach yn gyfreithiol ofynnol i bob busnes ddefnyddio'r 'hierarchaeth wastraff' wrth reoli eu gwastraff. Mae hynny'n golygu, pan greir gwastraff, y dylai busnesau archwilio ffyrdd o arbed, aildefnyddio, ailgylchu, adfer, gyda gwaredu'n ddewis olaf. Mae canllawiau ar ddefnyddio'r hierarchaeth wastraff a syniadau ar gyfer delio gyda gwahanol fathau o wastraff ar gael gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).

Byddwch yn torri Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Adrannau 33, 34 a 79) os ewch â'ch gwastraff busnes adref a'i waredu yn eich gwastraff cartref eich hun, neu os byddwch yn ei losgi. Mae llosgi gwastraff yn achosi llygredd amgylcheddol neu niwed i iechyd, a gall cyflawni gweithgaredd heb hawlen amgylcheddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru arwain at erlyniad.

Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu

Gellir mynd â gwastraff masnachol, heblaw am **wastraff electronig neu drydanol, clinigol, gwastraff hylif, gwastraff peryglus, teiars a gwastraff cemegol** i adran gwastraff masnachol y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref yng ngorsafodd trosglwyddo Nant-y-caws, Caerfyrddin, Trostre, Llanelli neu Langadog. Gellir codi tâl am y gwasanaeth hwn.

Er mwyn casglu a gwaredu'r eitemau eraill yn ddiogel gofynnir i chi drefnu gyda chasglwr/cwmni gwastraff trwyddedig. Mae rhestr o'r rhain ar gael ar-lein neu yn y llyfr ffôn busnes.

Mae'n dramgwydd droseddol gwaredu gwastraff masnachol mewn biniau/bagiau gwastraff ac ailgylchu cartref; Banciau Ailgylchu Cymunedol, neu ardal gwastraff domestig Canolfannau Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref.

Gellir erlyn unrhyw fusnes y ceir ei fod yn gwaredu ei wastraff fel hyn a gall wynebu dirwy sylweddol.

Gwastraff Pecynnu

Os yw eich busnes yn gwneud, yn llenwi, yn gwerthu, yn trafod neu'n cynhyrchu pecynnu neu ddeunyddiau pecynnau, bydd angen iddo fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ynghylch pecynnu.

Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE)

Dylai unrhyw fusnes sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu, gwerthu, mewnfario, ailgylchu neu drafod offer trydanol ac electronig fod yn ymwybodol, o dan Gyfarwyddeb WEEE, ei bod bellach yn anghyfreithiol eu gwaredu mewn safle tirlenwi.

Gall fod angen i fusnesau gofrestru fel cynhyrchwyr hefyd os ydynt yn anfon nwyddau electronig i farchnad y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd, os yw'r busnes yn ymwneud ag adnewyddu neu atgyweirio offer WEEE, mae rhwymedigaeth arno i gofrestru'r gweithgaredd hwn fel eithriad, ac mae'n rhaid iddo dalu ffi, yn ogystal â rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gwastraff Peryglus

Mae rhai mathau o wastraff yn cael eu dosbarthu'n wastraff peryglus, er enghraifft, tiwbiau fflworoleuol, monitorau cyfrifiadur, olew mwynol, batrïau asid plwm, oergelloedd, teiars, asbestos, bwrdd plastr. Mae'r gwastraff hwn yn niweidiol i'r amgylchedd ac i iechyd dynol. Os ydych chi'n cynhyrchu unrhyw un o'r rhain ar eich safle, mae angen delio ag ef yn unol â'r rheoliadau gwastraff peryglus.

Batrïau

Cynhyrchwyr ac adwerthwyr batrïau sydd bellach yn gyfrifol am eu hailgylchu. Os yw eich busnes yn cynhyrchu mwy nag un dunnell o fatrïau bob blwyddyn, dylech ymuno â 'chynllun cydymffurfio' cymeradwy, a fydd yn rheoli'r gwaith o gasglu ac ailgylchu.

O'r 1af o Chwefror 2010, rhaid i ddosbarthwyr batrïau cludadwy / cronaduron, sy'n gwerthu dros 32kg o fatrïau cludadwy y flwyddyn o siop unigol, ddarparu cyfleuster derbyn batrïau yn ôl am ddim yn y siop, fel bod unrhyw aelod o'r cyhoedd yn gallu ailgylchu batrïau gwastraff.

Sbwriel a Gwastraff

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gosod dyletswyddau ar berchnogion a meddianwyr tir i gadw tir sy'n eiddo iddynt yn rhydd rhag sbwriel a gwastraff.

Lle gellir olrhain problem sbwriel yn eglur i fusnes/safle masnachol, mae gan y Cyngor bŵer i gyflwyno Hysbysiad Rheoli Sbwriel ar y Stryd i'r perchennog.

Gall y Cyngor hefyd godi ffi ar fusnes am glirio troliau siopa sydd wedi cael eu gadael ar y briffordd neu mewn mannau cyhoeddus eraill. Gellir storio'r rhain am gyfnod penodedig, cyn eu gwaredu yn unol â'r gyfraith.

Rhaid i bob busnes: -

- Sicrhau bod ganddynt le storio digonol ar gyfer gwastraff masnachol, naill ai o fewn yr adeilad neu mewn man amgaaedig y tu allan. Gofynnir i chi sicrhau bod eich bag(iau) neu eich cynhwysydd/cynwysyddion yn cael eu rhoi allan y noson cyn y casgliad, neu fel y cytunwyd gyda darparwr y casgliad gwastraff.
- Osod biniau sbwriel/ailgylchu y tu allan i safle'r busnes (trwy gytundeb gyda'r Cyngor Sir), os ydych yn gwerthu cludfwyd. Dylech hefyd arddangos arwyddion yn annog cwsmeriaid i'w defnyddio.

Mae gwybodaeth ddeddfwriaethol ychwanegol ar gael yn:

www.gov.uk/browse/business/waste-environment

www.cyfoethnaturiolcymru.org.uk

www.environment-agency.gov.uk/wastecarriers

www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside

www.defra.gov.uk/publications

www.cwmenvironmental.co.uk